**Mark Drakeford AS/MS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg**
**Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

5 Mawrth 2025

Annwyl Mike,

Gallaf gadarnhau y cynhaliwyd cyfarfod y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid (F:ISC) yng Nghaerdydd ar 27 Chwefror. Cyhoeddwyd hysbysiad yn dilyn y cyfarfod: Y Pwyllgor Sefydlog Rhyngweinidogol ar Gyllid - 27 Chwefror 2025 - GOV.UK.

Cadeiriais y cyfarfod ac yn ymuno â mi oedd y Gwir Anrh. Darren Jones AS, Prif Ysgrifennydd y Trysorlys (Llywodraeth y DU), Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Shona Robison ASA (Llywodraeth yr Alban) a John O'Dowd ACD, y Gweinidog Cyllid (Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon).

Roedd y cyfarfod yn un cynhyrchiol gyda ffocws ar gydweithio i fynd i'r afael â'r heriau cyllidol presennol. Cadarnhaodd y Prif Ysgrifennydd y bydd Rhagolwg y Gwanwyn ar 26 Mawrth yn cyflwyno rhagolwg y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol (OBR). Gwnaethom hefyd archwilio sut y gallwn ymgysylltu i sicrhau bod ein blaenoriaethau allweddol yn cael eu hadlewyrchu yn Adolygiad Gwariant Llywodraeth y DU, a fydd yn dod i ben ar 11 Mehefin. Cytunwyd i gydweithio i edrych ar gyfleoedd i alinio ein blaenoriaethau ar gyfer buddsoddi a manteisio i'r eithaf ar yr adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys o ran ein buddsoddiadau mewn seilwaith.

Yn ystod trafodaethau ar gynlluniau cyllidol, eglurais effaith newidiadau Cyfraniadau Yswiriant Gwladol Llywodraeth y DU yng Nghymru a pha mor bwysig yw hi fod Llywodraeth y DU yn ariannu cyfraniadau Yswiriant Gwladol cyflogwyr sector cyhoeddus Cymru, yn yr un modd â gwasanaethau cyhoeddus Lloegr.

Cydnabuwyd a chroesawyd gwelliannau mewn cyfathrebu, gan gynnwys hysbysiad cynharach o newidiadau i setliadau datganoledig gan Lywodraeth y DU, a daethpwyd i gytundeb i gyfundrefnu'r rhain fel eu bod wedi'u nodi'n ffurfiol.

Gwnaethom drafod pwysigrwydd hyblygrwydd cyllidebol ychwanegol, fel mwy o hyblygrwydd o ran benthyca a chronfeydd wrth gefn i alluogi'r llywodraethau datganoledig i wneud y mwyaf o adnoddau ac addasu i bwysau ariannol annisgwyl. Cytunwyd y bydd papur opsiynau manwl yn cael ei baratoi i'w drafod yn ein cyfarfod nesaf.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Mark.Drakeford@gov.wales
Gohebiaeth.Mark.Drakeford@llyw.cymru

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd y cyfarfod wyneb yn wyneb nesaf yn cael ei gynnal yn Llundain ym mis Mai, a bwriedir cwrdd yn rhithiol ym mis Ebrill hefyd.

Yn gywir,



**Mark Drakeford AS/MS**
Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a’r Gymraeg
Cabinet Secretary for Finance and Welsh Language